OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 2791 (Cy.232)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Diwygio) (Rhif 2) 2006

Wedi'u gwneud - -	*17 Hydref 2006*
Yn dod i rym - -	*18 Hydref 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 83A a 126(4) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977(**1**) yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Diwygio) (Rhif 2) 2006 a deuant i rym ar 18 Hydref 2006.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

(a) ystyr "y prif Reoliadau" ("*the principal Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl 1988(**2**); ac

(b) ystyr "Rheoliadau Cymhorthdal Incwm" ("*the Income Support Regulations*") yw Rheoliadau Cymhorthdal Incwm (Cyffredinol) 1987(**3**).

(**1**) 1977 (p.49). Mewnosodwyd adran 83A gan adran 14(1) o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1988 (p.7) ("Deddf 1988") ac fe'i diwygiwyd gan adran 25 o Ddeddf 1988 a pharagraff 6 o Atodlen 2 iddi, adran 41(10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gofal Sylfaenol) 1997 (p.46) a pharagraff 19 o Atodlen 2 iddi, erthygl 2 o O.S. 1998/2385, erthygl 3(1) o O.S. 2000/90, a pharagraff 5 a 13 o Atodlen 1 iddo, adran 66(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990 (p.19) ("Deddf 1990") a pharagraff 18(5) o Atodlen 9 iddi, adran 2(1) o Ddeddf Awdurdodau Iechyd 1995 (p.17) a pharagraff 40 o Atodlen 1 iddi, adran 2(5) o Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 (p.17) ("Deddf 2002") a pharagraffau 1 a 32 o Ran 1 o Atodlen 2 iddi a chan adrannau 34 a 184 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (p.43) ("Deddf 2003") a pharagraffau 23 a 32(b) o Atodlen 4 iddi, a pharagraffau 7 a 31 o Atodlen 11 iddi. Mae adran 126(4) wedi'i diwygio gan adran 65(2) o Ddeddf 1990, adran 65(1) o Ddeddf Iechyd 1999 (p.8) ("Deddf 1999") a pharagraffau 4 a 37 o Atodlen 4 iddi, adran 67(1) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (p.15) a pharagraffau 5 a 13 o Ran 1 o Atodlen 5 iddi, adrannau 6(3)(c) a 37(1) o Ddeddf 2002 ac adrannau 184 a 196 o Ddeddf 2003 a pharagraffau 7 a 38 o Atodlen 11 iddi, a Rhan 4 o Atodlen 14 iddi. Trosglwyddir swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan y darpariaethau hyn, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2(a) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, O.S. 1999/672, fel y'i diwygiwyd gan adran 66(5) o Ddeddf 1999.

(**2**) O.S.1988/551 fel y'i diwygiwyd gan O.S.1989/394, 517 a 614, 1990/548, 918 a 661, 1991/557, 1992/1104, 1993/608, 1995/642 a 2352, 1996/410, 1346 a 2362, 1997/748 a 2393, 1998/417, 1999/767 a 2840 (Cy.20), 2001/1397 (Cy.92) a 3322 (Cy.275), 2003/975 (Cy.134) a 2561 (Cy.250), 2004/871 (Cy.86) a 1042 (Cy.124), 2005/1723 (Cy.135) a 3302 (Cy.256) a 2006/1389 (Cy.139).

(**3**) O.S. 1987/1967.

Addasiadau i'r Rheoliadau Cymhorthdal Incwm yn Atodlen 1 i'r prif Reoliadau

2.—(1) Diwygir Atodlen 1 i'r prif Reoliadau (Addasiadau i Gymhorthdal Incwm) fel a ganlyn.

(2) Yn Nhabl A, yn yr addasiadau i reoliad 62 o'r Rheoliadau Cymhorthdal Incwm (cyfrifo incwm grant)—

(a) cyn y cofnod cyntaf, mewnosoder—

"In paragraph (1) for the words "subject to paragraphs (2) and (2A)" there were substituted "subject to paragraphs (2), (2A) and (2C)"";

(b) ar ôl y cofnod a fewnosodwyd gan baragraff (a) o'r rheoliad hwn, mewnosoder—

"After paragraph (2B) there were inserted—

"(2C) There shall also be disregarded from a student's grant income—

(a) any sum in excess of the sum set out as the maintenance grant amount in regulation 33(4)(b) of the Assembly Learning Grants and Loans (Higher Education) (Wales) Regulations 2006 (maximum amount of loans for new system eligible students with full entitlement)(**4**) which forms part of a maintenance grant paid pursuant to regulation 29 of those Regulations (maintenance grant); and

(b) any sum in excess of the sum set out as the maintenance grant amount in regulation 57(4)(b) of the Education (Student Support) Regulations 2006 (new system students with full entitlement)(**5**) which forms part of a maintenance grant paid pursuant to regulation 48 of those Regulations (qualifying conditions for the maintenance grant);

(c) any sum in excess of the sum set out as the maintenance grant amount in regulation 57(4)(b), (c) or (d), as appropriate, of the Education (Student Support) Regulations (Northern Ireland) 2006 (new system students with full entitlement)(**6**) which forms part of a maintenance grant paid pursuant to regulation 49 of those Regulations (qualifying conditions for the maintenance grant).".";

(c) hepgorer y cofnodion sy'n dechrau gyda "As if in paragraph (3) from the beginning", "As if in paragraph (3), in sub-paragraph (a)" ac "As if in paragraph (3), in sub-paragraph (b)";

(ch) ar ôl y cofnod a fewnosodir gan is-baragraff (b) o'r paragraff hwn, mewnosoder—

"For paragraph (3) there were substituted—

"(3) In calculating the weekly amount of the grant to be taken into account as income—

(a) except where sub-paragraph (b) or paragraph (4) applies, the grant shall be apportioned equally between 52 weeks; and

(b) in the case of a grant which is payable in respect of the final academic year of the course or if the course is only of one academic year's duration, in respect of that year the grant shall be apportioned equally between the weeks in the period beginning with the start of the final academic year or, as the case may be, the single academic year and ending with the last day of the course.";"

(d) yn lle'r cofnod sy'n dechrau gyda "As if in paragraph (3A)", rhodder "Omit paragraph (3A)";

(**4**) O.S. 2006/126 (Cy.19).
(**5**) O.S. 2006/119, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2006/955 ac O.S. 2006/1745.
(**6**) S.R. (NI) 2006 Rhif 312.